DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 69 Mai 2008

Strwythur Newydd i'r GIG yng Nghymru

Ar 2il o Ebrill 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynigion am rai newidiadau y gellid ei gwneud i'r GIG yng Nghymru. Trefnwyd cyfnod o ymgynghori sy'n gorffen ar y 25ain o Fehefin 2008 ac sy'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd roi eu barn ar y cynigion. Amgaeir grynodeb o'r prif newidiadau a gynigiwyd.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn ymateb i'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghorol. Mae'n bosib mai ond ychydig o sylwadau fydd gennych – bydd unrhyw sylw o werth.
Hoffem dderbyn y sylwadau erbyn **18 Mehefin 2008** os gwelwch yn dda.

Gellir cysylltu â Chyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn, drwy'r post, e-bost, ffôn neu ffacs. (gweler isod).

Os hoffech mwy o wybodaeth am y cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru, gallwch lawr lwytho dogfen gynhwysfawr o:

http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/healandsoccarecurrcons/nhswales/

Gwahoddir chi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfarfod ynglŷn â'r cynigion. (gweler gwybodaeth amgaeedig)

Trefnwyd cyfarfod:
DYDD IAU 19 MEHEFIN 2008 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR SIR, LLANGEFNI YNYS MÔN - (Lluniaeth ar gael) - 9.30am – 11.30am

Os â diddordeb cwblhewch y bonyn amgaeedig a'i ddychwelyd at Della Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carol Williams, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EN.
Ffôn: 01248 723283 E-bost: carol@nwwaleschc.org.uk

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
YNYS MÔN | ANGLESEY

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

GWYBODAETH

NEWID STRWYTHUR Y GWASANAETH IECHYD GENEDLAETHOL YNG NGHYMRU, CRYNODEB O YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Ar 2il o Ebrill 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynigion am rai newidiadau y gellid ei gwneud i'r GIG yng Nghymru. Trefnwyd cyfnod o ymgynghori sy'n gorffen ar y 25ain o Fehefin 2008 ac sy'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd roi eu barn ar y cynigion.
Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu drwy Fyrddau Iechyd Lleol (sy'n trefnu'r cytundebau ar gyfer gwasanaethau iechyd), ac ymddiriedolaethau GIG
(sy'n darparu'r gwasanaethau iechyd).
Dyma'r prif newidiadau sydd wedi eu cynnig:
1. Lleihau nifer y Byrddau Iechyd Lleol o ddau-ar-hugain i wyth.

2. Lleihau nifer yr ymddiriedolaethau GIG o ddeg i naw.

3. Trosglwyddo y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau iechyd yn y gymuned o'r ymddiriedolaethau GIG i'r Byrddau Iechyd Lleol. Felly, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am wasanaethau iechyd cynradd a gwasanaethau yn y gymuned er enghraifft gwasanaethau meddygfeydd teulu, a bydd yr ymddiriedolaethau GIG yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol yn yr ysbytai.

4. Ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolaethau GIG yn cael eu hariannu drwy'r Byrddau Iechyd Lleol. Y cynnig yw bod yr ymddiriedolaethau yn cael eu hariannu naill ai yn uniongyrchol o Lywodraeth y Cynulliad, neu o Fwrdd Cenedlaethol newydd y bydd angen ei sefydlu.

5. Mae cyrff GIG angen amrywiaeth o wasanaethau cymorth yn cynnwys gwasanaethau ystadau, cyfreithiol, caffael, gwybodaeth, ag eraill.
Ar hyn o bryd, rhannir rheolaeth y gwasanaethau yma rhwng nifer o gyfundrefnau GIG. Yn dilyn y cynnig bod ymddiriedolaethau GIG yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal i'r claf, bydd cyfundrefnau eraill yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau cymorth.

Mae gan y cyhoedd nawr y cyfle i roi eu barn ar y newidiadau yma; un ffordd o wneud hyn yw drwy ddanfon llythyr i'ch CIC lleol. Gallwch ymweld â'r wefan www.patienthelp.wales.nhs.uk am fanylion y CIC lleol.
Neu e-bostiwch eich CIC lleol.
Os hoffech rhagor o wybodaeth am y cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru, gallwch lawrlwytho dogfen gynhwysfawr o:
http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/healandsoccarecurrcons/nhswales/?lang=en

NEWYDDION

CYNGOR IECHYD CYMUNED YNYS MÔN
2008 - 2009

Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn yn ddiweddar etholwyd Mrs Eiluned A B Thomas yn Gadeirydd a Mr David D Evans yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2008/2009.

Manylion:
Mrs Eiluned A.B. Thomas 'Bodorgan Dyddyn' Bodedern, Ynys Môn LL65 3PE
01407 740846
Mr David D. Evans 'Pant yr Haul' 49 Bryn Meurig, Llangefni, Ynys Môn. LL77 7JB
01248 723248

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau am y flwyddyn i'r ddau, mae Eiluned yn Drysorydd Medrwn Môn, ac yn aelod gwerthfawr o'i Fwrdd Rheoli.

Gwedd newydd ar hyfforddiant i grwpiau gwirfoddol – ledled Cymru

Mae mudiadau gwirfoddol ledled Cymru ar fin dod yn fwy hunangynhaliol diolch i raglen hyfforddi gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at gryfhau corff o fudiadau sydd eisoes yn ffynnu.

Mae WCVA a'r rhwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol fel Medrwn Môn wedi sefydlu *Cyrsiau ar gyfer Cymunedau*, rhaglen hyfforddi genedlaethol a fydd yn helpu mudiadau i ddelio a materion hanfodol megis dod o hyd i gyllid a rheoli asedau.

Lansiwyd y rhaglen Ebrill 2008, ac mae'n cynnig 54 o gyrsiau – rhai yn gyrsiau undydd ac eraill yn hanner diwrnod – yn costio rhwng £13.00 ag £20.00.

Gobeithir bydd *Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru* yn darparu rhaglen fforddiadwy o gyrsiau mae eu hansawdd wedi ei sicrhau ar bynciau fel ffurfioli mudiadau, monitro a gwerthuso gwaith mudiad, gweithio efo'r sector statudol a gwirfoddoli, mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Derlwyn Hughes Medrwn Môn 01248 724944

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org

NEWYDDION

Grantiau Gwirfoddoli Ieuenctid Comisiwn Russell 2008 - 09

'Cyfleoedd' a 'Hyrwyddo'

All eich mudiad annog mwy o bobl ifanc i wirfoddoli?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £370,000 trwy WCVA i gefnogi prosiectau a fydd yn ysgogi newid sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gwirfoddoli, ac amrywiaeth gwirfoddolwyr ifanc. Nod cynllun newydd Grantiau Gwirfoddoli ymhlith Pobl Ifanc – Comisiwn Russell, yw cefnogi'r gwaith o ddarparu a hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli newydd gan fudiadau trydydd sector yng Nghymru, yn enwedig i bobl ifanc dan anfantais.

Mae pecynnau ymgeisio ar wahân ar gael ar gyfer grantiau 'Cyfleoedd' neu 'Hyrwyddo'.

Pobl ifanc sy'n cael blaenoriaeth:

Mae'r cynllun grant yn ceisio rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd gydag ystod eang o bobl ifanc (16 - 25 oed), ac ar eu cyfer, yn enwedig: pobl ifanc o gymunedau difreintiedig: yn benodol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl ifanc a chanddynt anableddau corfforol neu anableddau dysgu; pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.

Faint sydd ar gael?

- 'Cyfleoedd'**:** hyd at £10,000 o nawdd prosiect ar gyfer gweithgareddau a fydd yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau gwirfoddoli newydd ac arloesol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed – naill ai gyda'ch mudiad eich hun neu gyda mudiad arall.
- 'Hyrwyddo'**:** bydd hyd at £5,000 o nawdd prosiect yn hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, ac ar eu cyfer, ee drwy ddigwyddiadau hyrwyddo, gwefannau, arddangosfeydd neu ymweliadau.

Rhaid i chi allu rhoi disgrifiad clir o sut y byddwch yn tynnu sylw pobl ifanc ac yn eu denu; yn enwedig y rheini sydd dan anfantais neu wedi'u heithrio; sut y byddwch yn mesur llwyddiant a sut y byddwch yn gwario'r arian.

Rhaid cwblhau'r holl brosiectau a rhoi cyfrif amdanynt erbyn 31 Mawrth 2010.

Rhaid ad-dalu unrhyw nawdd sydd heb ei wario erbyn y dyddiad hwnnw.

Pryd gallwch wneud cais?

Y cyfle olaf i wneud cais eleni yw Hydref 2008.

Mae pecynnau ymgeisio ar gael gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu www.wcva.org.uk, neu anfonwch e-bost at help@wcva.org.uk

Lansio Safle We Medrwn Môn

Lansir safle we Medrwn Môn **www.medrwnmon.org** yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr. Os hoffech i'ch mudiad gael ei gynnwys ar y safle we, cwblhewch y ffurflen amgaeedig gyda'r **holl** wybodaeth berthnasol a ofynnir amdano, a dychwelwch drwy e-bost neu'r post erbyn 6 Mehefin 2008.

GWIRFODDOLI

Adroddiad newydd o'r farn bod angen ad-drefnu sylweddol ym maes gwirfoddoli

Bydd mudiadau'r trydydd sector yng Nghymru yn cadw llygad barcud ar adroddiad diweddar ar ddyfodol gwirfoddoli yn Lloegr.

Er nad yw argymhellion yr ymgynghoriad mwyaf manwl a gynhaliwyd erioed yn Lloegr yn berthnasol i Gymru, bydd diddordeb o hyd yn y syniadau a sut y cant eu rhoi ar waith, neu beidio.

Mae'r ymgynghoriad wedi arwain at alwadau i roi newidiadau sylweddol ar waith er mwyn gwella gwirfoddoli i filiynau o bobl dros y 10 mlynedd nesaf.

Yn ôl y Comisiwn ar Ddyfodol Gwirfoddoli, mae biwrocratiaeth, archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a 'methiant y sector gwirfoddoli ymateb i anghenion amrywiol cymdeithas' yn rhwystro gwirfoddolwyr parod.

Canfu adroddiad y Comisiwn ***'Manifesto for Change'*** nad oedd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio ddigon ac nad oeddynt yn cael cyfleoedd yn cydnabod nac ymateb i'w sgiliau, ac mae'n argymell bod angen i fudiadau adolygu eu dulliau gweithio ar unwaith i sicrhau bod cyfleoedd newydd, creadigol, a hyblyg ar gael.

Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ffordd orau y gallai'r Llywodraeth gefnogi gwirfoddoli yw drwy fabwysiadu sefyllfa lle nad ydynt yn ymyrryd gan wrthod y temtasiwn i ddatblygu cynlluniau newydd.

Yn lle hynny, dylai wneud popeth o fewn ei gallu i chwalu rhwystrau i wirfoddoli, darparu cefnogaeth ariannol ychwanegol i ehangu cefnogaeth mewn gwirfoddoli a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr a'r sawl sy'n eu rheoli.

Canmolwyd Volunteering England am eu gweledigaeth i gomisiynu'r adroddiad, ac er ei fod yn anochel yn datgelu rhai o'r agweddau llai cadarnhaol ym maes rheoli gwirfoddolwyr, mae hefyd yn tynnu sylw at y cyfraniad cadarnhaol sylweddol a wna mudiadau gwirfoddol wrth ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli.

Mae'r awdurdod wrth gefn yr adroddiad yn herio rhai o'r arferion mwy biwrocrataidd ac awdurdodaidd sydd wedi ymdreiddio i faes gwirfoddoli dros y blynyddoedd diwethaf.

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Wakeham

Darperir grantiau gan Ymddiriedolaeth Wakeham hyd at £750 i brosiectau cymunedol. Nid ydynt yn ffafrio unrhyw weithgarwch arbennig, ond yn ffafrio cyllido prosiectau bychan na all ddenu cyllid o unrhyw le arall. Mae'n rhaid i'r mudiad fod yn elusen gofrestredig yn y DU, neu'n gweithio ag elusen sy'n gallu derbyn cyllid ar ran y mudiad.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â: www.wakehamtrust.org/whowesupport.php

Sefydliad Waterloo

Mae Sefydliad Waterloo yn Sefydliad annibynnol a grëwyd yn ddiweddar i ddosbarthu grantiau yn y DU. Bydd y Sefydliad yn dyfarnu grantiau i fudiadau elusennol yn y DU a byd-eang. Yn bennaf mae â diddordeb mewn prosiectau sy'n helpu'n fyd-eang mewn materion yn ymwneud a'r hinsawdd, a'r gymuned leol yng Nghymru.

Anelir i wneud grantiau blynyddol o tua £2 filiwn at ddibenion elusennol yn y pedwar maes craidd o:

- Datblygiad y Byd
- Datblygiad Plant
- Yr Amgylchedd
- Prosiectau yng Nghymru

Mwy o wybodaeth ar gael trwy ymweld â: www.waterloofoundation.org.uk

Comic Relief – grantiau bach

Mae yna dair rhaglen fach (llai na £5,000):

Pobl Hyn

Cefnogi grwpiau a gweithgareddau sy'n helpu lleihau unigedd, yn arbennig ymysg pobl hyn bregus, a rhai dros 75oed.

Iechyd Meddwl

Helpu pobl a phroblemau iechyd meddwl ddod at ei gilydd i leisio'u barn ar wasanaethau a pholisïau sy'n effeithio eu bywydau. Cefnogi grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr i ymgyrchu am newid.

Cymunedau difreintiedig

Cyllido grwpiau cymunedau lleol (e.e. o stadau tai, cymdogaeth neu bentref) i wneud newid er gwell. Mae'n rhaid i'r grwpiau gynnwys a chael ei redeg gan bobl leol mewn ardaloedd sy'n cael ei effeithio gan dlodi ac amddifadedd.

Dim dyddiad cau i grantiau bach. Gellwch ymgeisio unrhyw amser. I fod yn gymwys am grant, mae'n rhaid i chi fod yn fudiad gwirfoddol neu grŵp hunangymorth a chyfansoddiad. Mae'n rhaid i'ch trosiant blynyddol fod yn llai na £150,000. Rhoddir blaenoriaeth i'r grwpiau hynny efo trosiant o £50,000 neu lai.

Ymwelwch â: www.comicrelief.com/ukgrants am fwy o wybodaeth, canllawiau a phecyn ymgeisio neu ffoniwch 0207 820 5555

NEWYDDION

Newyddion Ymddiriedolwyr WCVA

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael ar-lein i holl aelodau WCVA sydd wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth am faterion all effeithio ar ymddiriedolwyr.

Gall unrhyw un ymaelodi fel e-aelod a dewis derbyn gwybodaeth am gyfleoedd nawdd, gwirfoddoli neu wybodaeth i ymddiriedolwyr….. neu'r tri chategori. Cwblhewch y ffurflen ar-lein syml yn www.wcva.org.uk/aelodaeth

Materion cyfoes yn y rhifyn diweddaraf yma yn cynnwys:
Gweithredu Deddf Elusennau 2006 - death y trydydd gorchymyn i rym ar 18 Mawrth 2008, a'r pedwerydd ar 1af o Ebrill, a chyflwynwyd nifer o newidiadau neu addasiadau - gwelwch nhw ar wefan Swyddfa'r Cabinet.

- Ymddiriedolwyr / TGCh a gwasanaethau cyhoeddus
- Safonau codi arian a chyfarwyddyd
- Rheoli absenoldeb oherwydd salwch

a llawer mwy…….

Gŵyl Gerdded Ynys Môn 2008

Cynhelir Gŵyl Gerdded Ynys Môn 2008 a drefnwyd gan Menter Môn mewn partneriaeth â Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Asiantaeth Cerddwyr, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a llawr o grwpiau cerdded lleol, hanesyddol a chymunedol rhwng 24 Mai a 8 Mehefin, a chyflenwir dros 200 milltir o olygfa hardd Ynys Môn yn canolbwyntio ar bum prif themau - morwrol, hanes, diwylliant, fflora a ffawna.

Cynhelir cyfanswm o deithiau cerdded dros 16 diwrnod gydag atyniad ychwanegol o 4 taith gerdded arbenigol ar gyfer plant ysgol gynradd a taith Bws Cynnyrch Ynys Môn i gyfranogwyr a hoffai gymryd rhan ond efallai nad ydynt yn gallu cerdded pellter hir. Cynhelir hefyd 4 taith ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a diwrnod i'r teulu dydd Sadwrn, 31 Mai yn Llys Llewelyn, Aberffraw.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jackie Lewis ar
01248 725716/737
E-bost: jackie@mentermon.com
Gwefan: www.angleseywalkingfestival.com

NEWYDDION

Cefnogaeth Gofal mewn Galar Cruse

Os ydych mewn profedigaeth neu â chonsyrn am ffrind, cymydog neu aelod o deulu - oedolyn neu blentyn sy'n galaru cysylltwch â Cruse. Cynhelir sesiynau galw i mewn am wybodaeth ar y **trydydd dydd Mercher yn y mis yng Nghanolfan Lôn Abaty, Bangor rhwng 10.15am a 12.15pm** - darperir llenyddiaeth am ddim.

Unrhyw wirfoddolwyr sydd angen hyfforddiant gan Cruse, gobeithir rhedeg cwrs sylfaenol 48 awr yng Ngwynedd yn yr Hydref, drwy'r Gymraeg.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Trish, Gweinyddwr ar 08702 402 758
E-bost: crusenorthwales@btconnect.com
Gwefan: www.crusenorthwalesarea.ik.com

Cymorthfeydd Comisiwn Elusennau: Dydd Gwener 13eg Mehefin 2008 Swyddfeydd Medrwn Môn, Llangefni

Mewn cydweithrediad a Mantell Gwynedd, Cyngor Gwirfoddol Conwy, a'r Comisiwn Elusennau trefnwyd gan Medrwn Môn pnawn o gymorthfeydd efo swyddogion o'r Comisiwn Elusennau pnawn Dydd Gwener 13eg Mehefin yn Llangefni.

Daeth y Ddeddf Elusennau 2006 i rym 8fed o Dachwedd; mae'n ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth elusennol, yn adlewyrchu'r newid mewn cymdeithas a'r sector elusennol dros y ddegawd ddiwethaf.

Yn benodol bydd yn rhyddhau elusennau o fiwrocratiaeth flaenorol, yn eu galluogi i addasu i anghenion newydd mewn cymdeithas a ffyrdd newydd a mwy effeithiol o weithio. Mae yna amryw o gyfleoedd ar gynnig i elusennau sy'n dymuno tyfu a datblygu mewn ffyrdd gwahanol.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi nodi'r angen o leiaf wythnos cyn eu hymweliad, maent angen enwau'r elusennau sydd wedi cytuno i fynychu, a lle mae'n bosib amlinelliad o unrhyw ymholiad sydd ganddynt. Bydd hyn yn eu galluogi i gael copi o ddogfen lywodraethol yr elusen ble hebddi mae'n amhosibl rhoi ateb penodol.

Mae'n gyfle delfrydol i ymddiriedolwyr gwestiynu swyddog o'r Comisiwn Elusennau ar unrhyw ymholiad / pryder / perthnasol i'ch mudiad.

Nodir gan y Comisiwn Elusennau' nad yw'n ddefnydd effeithiol o adnoddau i ddarparu cymorthfeydd os nad oes o leiaf 5 elusen wedi cytuno i fynychu sesiwn'

Os â diddordeb cysylltwch â Derlwyn Hughes yn Medrwn Môn ar 01248 724944 cyn 3ydd o Fehefin 2008.

NEWYDDION LLEOL

Grant Cymorth i fudiadau sy'n ymwneud â phlant dan 10 oed ar yr ynys o fewn ardaloedd Cymorth

Mae £1250 ar gael i'w rannu rhwng grwpiau sy'n ymwneud â phlant dan 10 oed o fewn ardaloedd Cymorth ar Ynys Môn. Os yw eich grwp o fewn un o'r ardaloedd yma cewch wneud cais am y grant:

Caergybi – Morawelon, Tref Caergybi, Maeshyfryd, Porthyfelin, Parc, London Road, Kingsland.

Llangefni – ward Tudur.

Aberffraw - Amlwch - Gwalchmai - Bryngwran - Dwyran - Niwbwrch

Am ffurflen gais cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944 neu e-bost: linda@medrwnmon.org

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 13 Mehefin 2008.

LANSIAD CYFEIRIADURON

Lansiwyd Cyfeiriaduron y Gynghrair Cyflyrau Hirdymor Ynys Môn a Gogledd Gwynedd, Cynghrair Arthritis a Musculo Skeletal a Chynghrair Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Medrwn Môn ar 18 Ebrill 2008 gan Ieuan Wyn Jones, Is-Weinidog Cyntaf Llywodraeth y Cynulliad. Nod y cyfeiriaduron yw hybu a rhannu gwybodaeth i'r darparwyr allweddol iechyd, gofal cymdeithasol a lles o fewn sectorau statudol a gwirfoddol, i gynnwys Galw Iechyd Cymru, pa wasanaethau sydd ar gael a chynigiwyd gan fudiadau gwirfoddol, i'w ledaenu i ddefnyddwyr ac unigolion sydd newydd dderbyn diagnosis, sydd angen cefnogaeth a chymorth yn y gymuned.

Prif bwrpas y cyfeiriaduron yw gweithio mewn partneriaeth o fewn mudiadau statudol a gwirfoddol, i alluogi'r unigolyn i fyw yn eu cymuned ac mewn hyder. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys cefnogaeth, rhwydwaith hunangymorth, gwasanaeth ymarferol mewn cartrefi pobl, gofalwyr, eiriolaeth, hawliau budd-daliadau ac elw, digartrefedd, trais yn y cartref, camddefnyddio sylweddau, gweithgareddau plant a phobl ifanc, cyfeillgarwch, gwasanaeth hebrwng a thrafnidiaeth i enwi rhai.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ann Perkins, Hwylusydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Medrwn Môn, Uned 5 Parc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn LL77 7XA ar 01248 724944 neu ebost: ann@medrwnmon.org
Karl Krysko, Cadeirydd.

GWYBODAETH

SYMUD YMLAEN GYDA NEWIDIADAU I FODERNEIDDIO YSBYTAI CYMUNED

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board
Ynys Môn
Anglesey

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn yn falch o ddweud bod y gwaith i ddatblygu a moderneiddio Ysbytai a gwasanaethau cymuned yn datblygu'n dda, gyda'r gwaith angenrheidiol i adnewyddu'r ddau ysbyty wedi eu cymeradwyo.

Dywedodd Lynne Joannou, Prif Weithredwr y BILl – "Rhagwelir y bydd y gwaith angenrheidiol ar y ddau Ysbyty Cymuned yn dechrau ym mis Gorffennaf eleni, gyda dyddiad cwblhau arfaethedig ym mis Chwefror 2009. Ar ôl cwblhau'r addasiadau i'r adeiladau, bydd yr ysbytai'n cynnig gwell cyfleusterau i drigolion Ynys Môn yn ôl yr addewid yn yr ymgynghoriad cyhoeddus."

Bydd Ysbyty Cefni yn cynnig gofal i Bobl Hŷn gyda phroblemau'r cof ac Ysbyty Penrhos Stanley yn cynnig gofal gwell i gleifion meddygol. Bydd datblygiad newydd gwelyau strôc ymroddedig yn Ysbyty Penrhos Stanley yn galluogi pobl sy'n gwella ar ôl strôc i dderbyn yr adsefydliad angenrheidiol naill ai yn yr ysbyty cymuned neu eu cartref eu hunain.

Er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith adnewyddu, bydd angen lleihau'r lefel gwelyau yn raddol yn Ysbyty Cefni. Bydd hwn yn fesur dros dro a bydd yna amgylchedd gwell yn y ddau ysbyty i ofalu am gleifion ar ôl cwblhau'r gwaith.

Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd gwaith yn parhau i gynnig gofal gwell yn y ddau ysbyty fel y disgrifiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Un datblygiad yw penodi Rheolwr Achos, sef Uwch Nyrs sydd wedi derbyn Hyfforddiant Ymarferydd Nyrsio Pellach sgiliau ychwanegol ar gyfer diagnosis, asesu a thrin cleifion gyda chyflyrau cronig (er enghraifft - clefyd y galon; diabetes; asthma a salwch resbiradol arall; arthritis; epilepsi).

Nod cyffredinol y swydd newydd hon yw:

- atal mynediadau diangen i'r ysbyty
- lleihau hyd arhosiad yn yr ysbyty
- galluogi cleifion gyda chyflyrau tymor hir i aros gartref gyda gwasanaethau cefnogi
- lleihau'r nifer o ymweliadau â'r feddygfa
- gwella hunan ofal a hunan reolaeth cleifion"

Mae BILl Ynys Môn hefyd wedi llwyddo i gael arian ar gyfer Arbenigwr Nyrsio Methiant y Galon i weithio ar yr Ynys. Uwch Nyrs arall sydd wedi derbyn hyfforddiant hynod arbenigol pellach i gydlynu gofal i gleifion â Methiant y Galon. Penodwyd y Nyrs Methiant y Galon yn ddiweddar a bydd yn dechrau gweithio ar 1 Ebrill 2008.

GWYBODAETH

Strategaeth Iechyd, Gofal cymdeithasol a Lles 2008-11

Lansir Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-11, Cynllun Gwasanaethau Cymunedol 2008-11, Strategaeth Bwyd a Maeth ar gyfer Pobl Hŷn a Chynllun Gweithredol ar 5 Mehefin.

Mae Strategaeth IGCaLL a'r Cynllun Gwasanaethau Cymunedol yn gosod allan y blaenoriaethau cynllunio a chomisiynu a'r cyfeiriad ar gyfer datblygu gwasanaethau tros y tair blynedd nesaf i gyfarfod anghenion pobl Môn.

Mae'r Strategaeth IGCaLl a Bywyd Môn 2007 ar safle we'r cyngor sef: www.ynysmon.gov.uk a dilyn y linc 'Health and Social Care' ar y top yn ogystal ar safle we Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn.

Mae'r Strategaeth bwyd a Maeth ar gyfer Pobl Hŷn wedi cael ei datblygu er mwyn cyflawni tri prif amcan, sef:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i gynllunio bwydlenni a darparu bwyd iach ar gyfer bwyta'n iach a hyn er mwyn hybu iechyd a lles o fewn y boblogaeth;
- Darparu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n ymwneud â darparu bwyd mewn gwahanol leoliadau gofal;
- Hybu ffyrdd o gynhyrchu a phrynu bwydydd iach yn lleol.

Mae'r Cynllun Cefnogi Pobl yn gosod allan y blaenoriaethau a'r datblygiadau ar gyfer gwasanaethau llety perthynol yn ystod 2008/09.

Mae'r **Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol** yn gweinyddu Cyngor Cyfreithiol yn Lloegr a Chymru. Maent yn contractio gyda darparwyr cyngor cyfreithiol crefftus i helpu bobl i ddelio gyda phroblemau cyfreithiol. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth ffôn a safle we. Mae **Cyngor Cyfreithiol Cymunedol** yn **linell gymorth cynghori a safle we am ddim** a gyllidwyd gan y llywodraeth lle gall bobl:

Ddarllen a llawrlwytho taflenni gwybodaeth cyfreithiol
yn www.communitylegaladvice.org.uk
Gweld os ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol drwy ymweld â
www.communitylegaladvice.org.uk
·Gall defnyddwyr ffonau symudol dderbyn galwad yn ôl gan wasanaeth y gweithredwr trwy dectsio'u henw a 'Legal Aid' i 80010.

Neu, os ydynt yn byw ar incwm isel neu fudd-daliadau

· Cael cyngor ffôn **am ddim** (drwy ddeialu 0845 345 4 345) ar broblemau Dyled, Tai, Budd-daliadau, a phroblemau Addysg

Am fwy o wybodaeth, neu os hoffech drafod ymhellach, neu os ydych angen rhagor o wybodaeth, neu os hoffech drafod ymhellach, neu os hoffech weld eitemau neu daflenni hyrwyddol, cysylltwch ar 029 20647120
neu e-bostio: marcus.ponting@legalservices.gov.uk

Croeso i adran newydd Gwirfoddoli!

Mae rhai newidiadau wedi cymryd lle yn ystod y misoedd diwethaf ac mae yna ychwanegiadau i'r tim Gwirfoddoli! Mae Sian Cadwaladr Jones wedi'i hapwyntio'n Ddirprwy Brif Swyddog gyda chyfrifoldeb am Wirfoddoli, felly cysylltwch â ni gyda unrhyw wybodaeth hoffech gael ei gynnwys ar y tudalennau.

Gobeithiwn eich bod yn hoffi edrychiad newydd y tudalennau ac edrychwn ymlaen i dderbyn gwybodaeth am newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd gwirfoddoli gennych – cofiwch mai'ch tudalennau gwirfoddoli chi yw rhain!

Mae yna nifer o gyfleoedd gwirfoddoli ar www.gwirfoddolicymru.net.

Cymerwch gipolwg os ydych yn chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli gyda mudiadau trydydd sector ar yr ynys neu cysylltwch â ni os oes gennych gyfleoedd i'w ychwanegu i'r safle we!

Wythnos Gwirfoddolwyr

Wythnos Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin) yw'r dathliad blynyddol ym Mhrydain o'r gwaith mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud. Cynhelir digwyddiadau ar draws y wlad yn ystod yr wythnos, sy'n cydnabod, gwobrwyo a recriwtio gwirfoddolwyr.

Safle We Medrwn Môn

Yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr, bydd Medrwn Môn yn lansio safle we newydd www.medrwnmon.org, lle bydd gwybodaeth ar gael ar wirfoddoli ym Môn.

Gwirfoddoli mewn Iechyd

Byddwn yn hyrwyddo Gwirfoddoli mewn Iechyd yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr, gydag Ysbyty Gwynedd, Bwrdd Iechyd Lleol a Chyngor Iechyd Cymunedol. Byddwn yn bresennol yn y Ddesg Gwybodaeth yn Ysbyty Gwynedd, lle bydd gwybodaeth am Wirfoddoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gael. Dewch i'n gweld yno!

Gwirfoddoli Ifanc

Wrth gydweithio â phobl ifanc, rydym yn datblygu twlsyn ar gyfer Gwirfoddoli Ifanc, bydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr.

Cysylltwch â ni os hoffech gael gwybodaeth am Wythnos Gwirfoddolwyr!